# betws-y-coed

...and surrounding towns & villages



## Porth Eryri...

Parc Cenedlaethol / Coedwigoedd / Llynnoedd / Afonydd / Mynyddoedd / Cerdded / Beicio / Antur Awyr Agored / Atyniadau / Ymlwybro / Byd Natur / Bywyd Gwyllt / Celfyddydau / Hamdden

**visitbetwsycoed.co.uk**

visitbetwsycoed    visitbetwsycoed

**Croeso i'r…** awyr iach a glân, mynyddoedd, llynnoedd, afonydd, antur awyr agored, byd natur, ymlwybro, beicio, dringo - neu ymlacio yn ardaloedd digyffwrdd o fynyddoedd a choedwigoedd Parc Cenedlaethol Eryri. **Croeso i** Fetws-y-Coed - Porth Eryri a phrif gyrchfan antur awyr agored ym Mhrydain.

Wedi'i swatio yng nghanol coedwig Gwydyr, wrth gydlifiad 4 dyffryn coediog hynod o hardd mae Betws-y-Coed, Porth Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r pentref yng nghanol tirwedd naturiol ryfeddol o ddyffrynnoedd afonydd coediog, bryniau, rhaeadrau a llynnoedd cudd; a godre rhai o'r mynyddoedd uchaf yng Nghymru gan gynnwys Yr Wyddfa ei hun.

Mae'r ardal gyfagos yn lle hyfryd i gerdded a beicio lle gallwch ddianc rhag y torfeydd a mwynhau'r llonyddwch sydd gan fyd natur i'w gynnig. Dim ond ychydig funudau i ffwrdd o'r pentref gallwch gerdded yn dawel ar lan yr afon neu ddringo'n llawn egni i fyny'r bryniau i fwynhau golygfeydd godidog o'r dyffryn islaw a'r mynyddoedd yn y pellter.

Mae Betws-y-Coed a'r pentrefi cyfagos yn lleoliad perffaith ichi ei ddefnyddio fel canolbwynt lle gallwch fwynhau'r atyniadau amrywiol a chyffrous eraill sydd i'w cynnig yng ngogledd Cymru, gyda llawer ohonynt o fewn cyrraedd mewn 30 munud yn y car, gan gynnwys traethau tywod llydan a threfi glan môr traddodiadol, tirweddau llechi hanesyddol, plastai a gerddi prydferth, cestyll o'r Oesoedd Canol, canolfannau gweithgareddau antur, ceudyllau tanddaearol a mwy!

Croeso cynnes ichi yma gan Gymdeithas Dwristiaeth Betws-y-Coed a'r Ardal!


**visitbetwsycoed.co.uk**












NVW-C04-1718-0020 ©Crown copyright (2024) Cymru Wales








Coedwig Gwydyr
Llwybr y Marin / Gwydyr
Llyn Parc
Trefriw, Llanrwst a Chonwy
B5106
Llwybr Cerdded y Cwrs Golff
Pont y Mwynwyr
Llwybr Estyllod Glan yr Afon
AFON LLUGWY
Rhaeadr Ewynnol a Bangor
A5
Rheilffordd Fach
Hen Eglwys Sant Mihangel
Pont y Pair
Pont Grog (y Soldiwr)
Meddygfa
Eglwys y Santes Fair
Llyn Elsi
AFON CONWY
Llandudno, Trefriw, Llanrwst a'r A55
A470
A5
Cofeb Llyn Elsi
Llyn Elsi
A470
A5
Llangollen a Rhaeadr y Graig Lwyd
Ffos Anoddun
Pentref Betws-y-Coed
Garej
Gorsaf drên
Gorsaf betrol
Safle bws
Swyddfa bost
Parcio
Eglwys
Toiledau
Gwybodaeth i dwristiaid
Peiriant Arian Parod
Ffordd A
Rheilffordd
Ffordd B
Ardal adeiledig
Llwybrau, lonydd a llwybrau cerdded
* Mae ffyrdd a llwybrau ar y map hwn yn ddiagramatig yn unig ac nid wrth raddfa.

# Gweithgareddau ym Metws-y-Coed a'r ardal gyfagos

Mae gan yr ardaloedd o gwmpas Betws-y-Coed rhywbeth i'w gynnig i bawb, boed yn chwilio am olygfeydd godidog, antur, hanes neu gyfle i ymlacio'n dawel. Yma cewch archwilio ein coedwigoedd, rhostiroedd, afonydd, llynnoedd a rhaeadrau ar hyd y nifer o lwybrau a lonydd sy'n igam-ogamu'r dirwedd. Mae arwyddion ar y rhan fwyaf o'r llwybrau ac mae mapiau a chanllawiau ar gael o'r Ganolfan Groeso ym Metws-y-Coed.









Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys **pysgota** yn afonydd Llugwy a Chonwy ac yn Llyn Crafnant. Mae gan y llynnoedd eraill drwyddedi pysgota preifat. Mae angen trwydded bysgota ym mhob lleoliad. Cysylltwch gyda www.betws-y-coed-anglers.org am fwy o wybodaeth. Mae **merlota** ar gael ym Mhenmachno i ddechreuwyr; gall marchogwyr mwy profiadol archwilio llwybrau'r goedwig ar eu liwt eu hunain.

Mae gan Fetws ei **gwrs golff** 9 twll ei hun sy'n croesawu ymwelwyr dydd. Ychydig ymhellach mae cyrsiau golff mwy yng Nghonwy a Llandudno mewn lleoliadau hyfryd ar yr arfordir. Mae llawer o gyfleoedd i **nofio yn y gwyllt** mewn llynnoedd, pyllau ac afonydd lleol ond byddwch yn ofalus ac ymwybodol o'r rhybuddion gwahardd. I'r rhai sy'n llai anturus mae gan Westy'r Waterloo bwll nofio ac ystafell ffitrwydd ac yn croesawu ymwelwyr dydd. Mae pwll nofio cyhoeddus hefyd yn Llanrwsts.

Mae nifer o gyfleoedd i'r rhai sy'n frwdfrydig am chwaraeon dŵr gan gynnwys **canŵio a chaiacio** ar rai darnau o afonydd lleol. Mae Llyn Geirionydd hefyd yn ardderchog ar gyfer y rhan fwyaf o **chwaraeon dŵr.** Mae cwmnïau gweithgareddau awyr agored lleol hefyd yn cynnig cyfleoedd i **gerdded ceunentydd** a **neidio mewn i geunentydd**. Mae gan yr ardal hefyd **lwybrau beicio mynydd** ardderchog gan gynnwys llwybrau Gwydyr, Penmachno ac Antur Stiniog. Mae modd llogi beiciau yn lleol.

I'r rheiny sy'n chwilio am antur a gwefr, mae sawl safle gweithgareddau yn lleol sy'n cynnig amryw o anturiaethau fel y wifren wib, ogofa, a ffigar-êt y goedwig. Gallwch hefyd archwilio'r ceudyllau llechi gydag antur archwilio ceudyllau unigryw gyda chyfle i gysgu yn nwfn y tu mewn i un o'r ceudyllau hyn.

I'r rheiny sydd wrth eu boddau yn garddio a chyda bywyd gwyllt, ewch i archwilio'r ardd blodau gwyllt yn **Nhŷ Hyll** gaiff ei chynnal a'i chadw gan Gymdeithas Eryri, gerddi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym **Modnant** a gerddi **Castell Gwydyr**. Mae nifer o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn lleol gan gynnwys pentref chwarel diffaith Rhiwddolion, Tŷ Mawr Wybrnant - cartref cyfieithiad cyntaf y Beibl Cymraeg a safleoedd treftadaeth ddiwydiannol hen chwareli Coedwig Gwydyr.



Bwa'r Tresi Aur, Gerddi Bodnant © Creative Commons Bodnant Garden



01

# Rhaeadr Ewynnol

Mae'r man prydferth ac enwog hwn gyda'i raeadr ddramatig yn hawdd ei gyrraedd o bentref Betws-y-Coed yn ddim ond 2 filltir i'r gogledd.

Mae'r llwybr cerdded yn hawdd ac yn wastad yn bennaf. Mae'n amrywiol a chyda golygfeydd hyfryd ar hyd dyffryn afon Llugwy a llwybr drwy goedwig Gwydyr. Mae llwybr cylchol yn bosibl - gweler isod.

Y man cychwyn ydy **Pont y Pair**, lle mae'r afon yn disgyn dros greigiau anferth yng nghanol Betws-y-Coed. Gan droi i'r chwith ar ben pellaf y bont mae modd gweld llwybr wrth ymyl yr afon. Mae'r llwybr yn arwain at lwybr estyllod ac yna ar hyd dyffryn yr afon tuag at **Bont y Mwynwyr.** IYn syth ar y dde ar ben y grisiau mae llwybr syth trwy'r goedwig yn troi i'r chwith yn y pendraw am tua 50 metr ac ar y brif ffordd. Tua chwarter milltir ymhellach mae'r fynedfa at Raeadr Ewynnol. Daw grym dramatig a ffrwydrol y rhaeadr i'r golwg a'r profiad yn dwysáu wrth fynd i lawr y grisiau at y galeri yn y gwaelod.

Er mwyn cwblhau taith gylchol ewch yn eich blaen am hanner milltir tuag at ystafell de **Tŷ Hyll** – lle anarferol o hen ffasiwn ac yn werth y daith ychwanegol. Mae grisiau cyfagos i'r maes parcio bach yn arwain lawr at yr afon lle mae llwybr yn arwain yn ôl at Fetws-y-Coed yn y pendraw. (Mae sawl llwybr ar hyd y ffordd ond maent i gyd yn arwain at yr un cyfeiriad). Ar y ffordd mae golygfan lle mae modd gweld **Rhaeadr Ewynnol** o'r ochr gyferbyn.

**Amser (oriau):** 2 awr at Raeadr Ewynnol. 3.5-4 awr i gerdded y daith gylchol.

**Pellter:** 2 filltir (taith gylchol yn 4.5 milltir)

**Pa mor anodd:** hawdd

**Cyfeirnod Map:** SH 765 578
**Lledred:** 53.103058
**Hydred:** -3.8461349





02

# Moel Siabod

Mynydd agosaf Eryri at Fetws-y-Coed; copa siâp pyramid ar ei ben ei hun dim ond 4 milltir i'r gogledd o'r pentref lle mae modd gweld golygfeydd godidog o Eryri.

Mae dau brif lwybr i fyny **Moel Siabod**, y ddau yn dechrau o faes parcio **Bryn Glo** ar yr A5 i'r gogledd o Fetws-y-Coed. Mae'r llwybr anoddach, sy'n eithaf hawdd y rhan fwyaf o'r ffordd i fyny, yn dechrau bron iawn gyferbyn â maes parcio **Bryn Glo** rhwng Betws-y-Coed a Chapel Curig. Mae'r daith gerdded ar lwybrau llydan i fyny dringfa araf sy'n rhoi golygfeydd hyfryd o ddyffryn Llugwy islaw. Mae'n troelli heibio llynnoedd bach a llyn chwarel trawiadol wedi'i amgylchynu gan fwtresi unionsyth. Ychydig ar ôl croesi llyn arall, mwy - **Llyn y Foel**, mae'r ddringfa yn cynnwys ychydig o sgrialu anodd ac mae wedi'i farcio gyda philer triongli gyda chysgodfan cerrig defnyddiol gerllaw.

Mae'r ffordd i lawr at Gapel Curig i'r gogledd-ddwyrain yn llawer haws ond heb ei farcio yn dda iawn er bod llwybr yn ymddangos ar ôl ychydig. Mae'r llwybr arall yn dechrau gyferbyn â maes parcio hen gaffi Siabod ar yr A5 yng Nghapel Curig. Nid oes cyfeirbwyntiau ar y llwybr hwn felly bydd angen sgiliau darllen map neu gyfarwyddiadau llwybrau medrus. Does dim angen sgrialu ar y llwybr hwn.

**Amser (oriau):** 3 / 4 awr

**Pellter:** 5.5 milltir

**Pa mor anodd:** llafurus / anodd (yn dibynnu ar y llwybr)

**Cyfeirnod Map:** SH 709 548
**Lledred:** 53.074780
**Hydred:** -3.9285238



03

## Llyn Elsi

Ar garreg y drws ym Metws-y-Coed mae Llyn Elsi yn un o'r sawl llyn prydferth yng Nghoedwig Gwydyr sy'n amgylchynu'r pentref. Yma mae golygfeydd panoramig o gopaon mynyddoedd Eryri.

Mae sawl llwybr i fyny at y llyn. Mae'r llwybr mwyaf uniongyrchol yn dechrau y tu ôl i **Eglwys y Santes Fair** yng nghanol y pentref. Mae'r 500 medr cyntaf yn eithaf llafurus a serth. Mae cyfeirbwyntiau ar hyd y ffordd yn ogystal â llwybrau sy'n fforchio ond dylech anwybyddu'r llwybrau hyn nes eich bod yn cyrraedd cyffordd-T amlwg heb unrhyw ffordd ymlaen. Bydd troi i'r chwith yma ac yna i'r dde ar ôl 400 medr wrth y **cerrig stond** yn arwain at y llyn ac at y **gofeb** lle mae golygfa banorama wych i'w gweld o'r llyn a'r mynyddoedd. Mae llwybr gyda chyfeirbwyntiau o amgylch y llyn.

Mae llwybr mwy golygfaol hefyd, sy'n fwy diddorol ac amrywiol ond heb gyfeirbwyntiau felly bydd arnoch chi angen cyfarwyddiadau manwl. Mae'r llwybr yn dechrau wrth **Bont y Pair** yng nghanol y pentref ac yn dilyn afon Llugwy at **Bont y Mwynwyr**. Bydd croesi priffordd yr A5 ar ochr arall y bont yn eich arwain ar draws camfeydd a chaeau a heibio gwaith chwarel segur ar lwybrau sy'n arwain at y **gofeb** sy'n edrych dros y llyn yn y pendraw.

**Amser (oriau):** 2 awr (3.5 awr i gerdded y daith gylchol).
**Pa mor anodd:** llafurus mewn rhai darnau

**Pellter:** Uniongyrchol: 2 filltir (taith gylchol yn 4.5 milltir) Golygfaol 3.5 milltir (taith gylchol yn 5 milltir)

**Cyfeirnod Map:** SH 792 568
**Lledred:** 53.094692
**Hydred:** -3.8054516





04

## Ffos Anoddun a Rhaeadr y Graig Lwyd

Taith gerdded hawdd at geunant a rhaeadrau trawiadol.

O ganol y pentref cerddwch i'r de ar hyd priffordd yr A5 at siop Cotswold Rock Bottom ar y dde a dilyn y ffordd ochr gyfagos i fyny'r allt.

Ymhen ryw 1.5 milltir wrth y gyffordd-T trowch i'r chwith ar draws y bont ac yna'n syth i fyny llwybr ar ochr arall y ffordd gan ddilyn yr arwyddion. Mae'r fynedfa yn borth bach gyda blwch talu. Bydd angen talu tâl mynediad.

I weld Rhaeadr y Graig Lwyd, cerddwch heibio'r fynedfa ac ewch yn eich blaen am ryw 0.75 milltir tuag at faes parcio mawr caffi Conwy Falls. Mae'r fynedfa ar gyfer **Rhaeadr y Graig Lwyd** wrth ymyl y caffi. (Dyma hefyd fan casglu **Go Below**). Bydd angen talu tâl mynediad.

**Amser (oriau):** 2 awr
**Pellter:** 2.5 milltir / 4 milltir
**Pa mor anodd:** hawdd

**Ffos Anoddun**
**Cyfeirnod Map:** SH 798 546
**Lledred:** 53.075680
**Hydred:** -3.7951688

**Rhaeadr y Graig Lwyd**
**Cyfeirnod Map:** SH 810 535
**Lledred:** 53.065745
**Hydred:** -3.775933




# Coedwig Gwydyr a Llyn Parc (a theithiau cerdded cylchol eraill)

## Taith gerdded gylcho ddiddorol ac amrywiol gyda llawer o gyfeirbwyntiau trwy Goedwig Gwydyr at lyn llonydd Llyn Parc.

Croeswch Bont y Pair yng nghanol Betws-y-Coed a cherdded i fyny'r allt ar hyd y brif ffordd am ryw 100 llath nes eich bod yn cyrraedd y ffordd gyntaf ar y dde. Ar ôl ryw 350 llath mae polyn pren yn y ddaear gydag arwyddion olion traed o wahanol liwiau **(mae teithiau cerdded cylchol eraill gyda chyfeirbwyntiau yn mynd o'r fan hyn)**. Dilynwch yr ôl troed gwyn ar LAS heibio i'r chwith a heibio'r tai gyda'r estyllod dŵr du. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr hwn gan ddilyn y cyfeirbwyntiau glas trwy'r goedwigt.

Wrth y gyffordd gyda ffordd lydan arall yn y goedwig ewch i'r dde (mae'r arwydd ôl troed glas yn pwyntio i'r chwith yma) a byddwch chi'n gweld Llyn Parc 100 llath ar y chwith.

Yma byddwch chi'n gweld arwydd amlwg i fynd yn ôl am Fetws-y-Coed. Dilynwch yr arwydd ar hyd llwybr cul heibio rhaeadr a nant nes y byddwch yn cyrraedd cyffordd gyda ffordd lydan arall yn y goedwig. Ewch i'r dde yma ac ar ôl ryw 0.5 milltir ewch i'r chwith yn y gyffordd ychydig uwch ben y pentref.

**Amser (oriau):** 2 awr

**Pellter:** 3.5 milltir

**Pa mor anodd:** cymedrol

**Cyfeirnod Map:** SH 79124 56782
**Lledred:** 53.094379
**Hydred:** -3.8063231






Castell Dolwyddelan © Creative Commons, Jeff Buck

# Dolwyddelan

## Taith gerdded gylchol ar hyd dyffryn cudd uwchben pentref hardd ar y brif ffordd rhwng Betws-y-Coed a Blaenau Ffestiniog, heibio hen gastell Cymreig.

O'r maes parcio wrth yr orsaf reilffordd ewch i'r chwith dros y rheilffordd ac yna i'r dde yn syth ar ôl y bont gan ddilyn ffordd sy'n codi'n serth i fyny at ddyffryn cudd afon Lledr. Ewch yn eich blaen heibio ffermdy Gwyndy a throi i'r dde yn syth o flaen bwthyn ar y chwith. Ar ôl ffordd serth i fyny bydd y llwybr yn dod allan ar lethr agored gyda golygfeydd godidog o'r mynyddoedd. Ewch i lawr ar hyd llwybr tuag at dai cerrig y tu hwnt i nant fach. Ar ôl y giât bydd llwybr ar y chwith yn mynd trwy gae bach ac yn croesi hen bont gerdded garreg gan ymuno â phrif ffordd yr A470 yn y pendraw.

Croeswch y brif ffordd heibio gorsaf reilffordd y Bont Rufeinig a dilynwch y llwybrau cerdded gydag arwyddion sy'n arwain at fferm ac yna i'r dde ar lwybr cerdded gydag arwyddion ar draws giatiau a chamfeydd tuag at **Gastell Dolwyddelan**. O fan hyn, dilynwch y brif ffordd yn ôl at y pentref.

**Amser (oriau):** 3-4 awr

**Pellter:** 6 milltir

**Pa mor anodd:** cymedrol

**Cyfeirnod Map:** SH 73768 52139
**Lledred:** 53.0521285
**Hydred:** -3.8847154

## Teithiau Cerdded Eraill

Mae llawer o deithiau cerdded hyfryd eraill o Fetws-y-Coed. Mae modd dod o hyd i lwybrau manwl mewn canllawiau lleol sydd ar gael o'r Ganolfan Groeso ym Metws-y-Coed ac ynddynt mae'r canlynol:

**07 Llwybr Llechi Hir** sy'n cynnwys taith gerdded hir drwy Benmachno, Betws-y-Coed a Chapel Curig. **snowdoniaslatetrail.org**

**08 Taith gerdded gylchol Eglwys Sant Mihangel**
Taith gerdded fer, hawdd ond heddychlon ar hyd afonydd Conwy a Llugwy o du ôl yr orsaf reilffordd. Mae'r daith yn mynd heibio Pont y Soldiwr ac adeilad hynaf y pentref, eglwys ddymunol ac anarferol o hen ffasiwn, Sant Mihangel.

**09 Capel Curig**
4 milltir i'r gogledd o Fetws-y-Coed, taith gerdded gylchol, hawdd 4.5 milltir o hyd gyda dau banorama clasurol o Bedol yr Wyddfa i'w mwynhau; y cyntaf wedi'i adlewyrchu yn nyfroedd llonydd Llyn Mymbyr; a'r ail yn olygfa ehangach, uwch o gopaon Capel Curig.

**10 Dyffrynnoedd Llugwy a Lledr**
Taith gerdded hir a llafurus 8 milltir o hyd wrth lan dyffrynnoedd hyfryd afonydd Llugwy a Lledr gan ddringo i fyny'r Sarn Helen Rufeinig a dros y cribyn coediog llydan sy'n gwahanu dyffrynnoedd yr afonydd.

**11 Mynydd Garthmyn a Siambr Gladdu Capel Garmon**
Taith gerdded eithaf llafurus 6 milltir o hyd gyda golygfan arbennig dros y pentref a gweddillion siambr gladdu neolithig; ac yna lawr at Raeadr y Graig Lwyd

**12 Llyn Sarnau a Thŷ Injan Mwynglawdd Llanrwst**
Taith gerdded gylchol gymedrol 5.5 milltir o hyd ar hyd llwybrau gyda chyfeirbwyntiau yn bennaf trwy Goedwig Gwydyr ac ar hyd dyffryn hardd Llugwy

**13 Mwynglawdd Hafna**
Taith gerdded gymedrol 3.5 milltir o hyd yn archwilio'r safleoedd gwaith plwm llewyrchus yn eu dydd oedd yn rheoli'r bryniau uchel yng Nghoedwig Gwydyr



# Teithio a Pharcio

Mae Betws-y-Coed yn hawdd ei gyrraedd gan ei fod ar gyffordd dwy gefnffordd brysur a chyda chysylltiadau trên a bws lleol i ganolfannau cludiant.

**Yn y car**
Mae Betws-y-Coed ar gyffordd cefnffyrdd yr A5 (o Lundain i Gaergybi) a'r A470 (o Gaerdydd i Landudno) sy'n cysylltu gyda'r rhwydwaith traffyrdd ehangach i'r gogledd a'r de. Mae maes parcio cyhoeddus mawr ychydig heibio gorsaf reilffordd Betws-y-Coed ac mae llefydd parcio cyhoeddus ar gael ym mhob tref a phentref lleol. Mae'r ardal yn wych i grwydro o'i gwmpas mewn car gyda golygfeydd o fynyddoedd, cestyll, atyniadau a'r arfordir oll o fewn 30 munud yn y car o Fetws-y-Coed.

**Gwasanaethau trên a bws rheolaidd**
Mae Betws-y-Coed a thref gyfagos Llanrwst, ynghyd â sawl pentref llai arall, ar linell rheilffordd Dyffryn Conwy sy'n rhedeg rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog ac yn cysylltu gyda'r prif wasanaethau yng Nghyffordd Llandudno. Maw sawl rheilffordd gul sydd hefyd yn eich tywys ymhellach i mewn i Eryri drwy olygfeydd syfrdanol.

Mae gwasanaethau bws lleol yn cysylltu Betws-y-Coed a'r trefi a phentrefi cyfagos, ynghyd â Bangor â Chorwen sydd ychydig ymhellach. Yn ystod tymor yr haf, mae rhwydwaith gwasanaeth parcio a theithio bws Sherpa yn cysylltu Betws-y-Coed gyda phrif leoliadau yn Eryri, gan gynnwys llwybrau'r Wyddfa!

**Ar eich beic**
Mae milltiroedd o lwybrau beicio mynydd a beicio ffordd sy'n cysylltu Betws-y-Coed, y pentrefi cyfagos ac yn arwain allan am Eryri. Mae modd llogi beiciau yn lleol felly gallwch adael eich car gartref a dewis teithio ar ddwy olwyn yn lle!

# Map o'r Ardal a Gwybodaeth



# Allwedd

## Teithiau Cerdded

01 Rhaeadr Ewynnol
02 Moel Siabod
03 Llyn Elsi
04 Ffos Anoddun a Rhaeadr y Graig Lwyd
05 Coedwig Gwydyr a Llyn Parc (a theithiau cylchol eraill)
06 Dolwyddelan
07 Llwybr Llechi Hir
08 Taith gylchol Eglwys Sant Mihangel
09 Capel Curig
10 Dyffrynnoedd Llugwy a Lledr
11 Mynydd Garthmyn a Siambr Gladdu Capel Garmon
12 Llyn Sarnau a Thŷ Injan Mwynglawdd Llanrwst
13 Mwynglawdd Hafna

## Beicio Mynydd

13 Gwydyr Mawr (Llwybr y Marin)
14 Llwybrau Penmachno

## Top Attractions

15 Zipworld Velocity 2
16 Go Below
17 Eglwys y Santes Fair
18 Eglwys Sant Mihangel
19 Castell Gwydyr
20 Llyn Crafnant
21 Llyn Gerionydd
22 Amgueddfa Rheilffordd Conwy a'r Rheilffordd Fach
23 Siambr Gladdu Capel Garmon
24 Gerddi Bodnant
25 Capel Gwydyr Uchaf
26 Tu Hwnt i'r Bont
27 Go Below
28 Trefriw Woollen Mill
29 Zipworld Forest
30 Castell Dolwyddelan
31 Ceudyllau Llechi Llechwedd
32 Zipworld Bounce Below




i

Mae llawer iawn mwy o wybodaeth, cymorth a chyngor i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'ch ymweliad, gan gynnwys dewis eang o lefydd i aros ar gael ar-lein ar:

**visitbetwsycoed.co.uk**

ac ym Metws-y-Coed yn:
**Canolfan Groeso Betws-y-Coed, Stablau'r Royal Oak, Betws-y-Coed, LL24 0AH**

Ffôn: 01690 710426
E-bost: tic.byc@snowdonia.gov.wales



Cyhoeddwyd gan: **Cymdeithas Dwristiaeth Betws-y-Coed a'r Ardal**

Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb yn y cyhoeddiad hwn, ni all y Gymdeithas na'i hysbysebwyr gymryd cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad, anghywirdeb neu hepgoriad neu am unrhyw fater sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd gyda neu yn deillio o gyhoeddi'r wybodaeth ynghlwm.

Dylunwyd gan: **viewcreative.co.uk**

Cydnabyddiaeth lluniau:
© Crown copyright (2024) Cymru Wales, © Creative Commons Bodnant Garden, © Creative Commons from Unsplash, © Creative Commons from Pexels

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

**Doctors**
Mae meddygfa Betws-y-Coed ym mhentrefan Pentre Du sydd filltir i'r gogledd o ganol y pentref ar ochr chwith yr A5. Mae'r troad ar y chwith ychydig cyn yr ysgol. Rhif ffôn: **01690 710205**. Mae meddygfa hefyd yn Llanrwst ar Ffordd Tan yr Ysgol, rhif ffôn **01492 640411 / 640303**

**Ysbytai / Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys**
Mae dau ysbyty gydag adrannau Damweiniau ac Achosion Brys o fewn 30 munud yn y car.

- **Ysbyty Gwynedd**, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW Ffôn: 01248 384 384
- **Ysbyty Glan Clwyd**, Rhyl, Denbighshire, LL18 5UJ Ffôn: 01745 583 910

**Deintydd**
Mae deintyddfa y GIG yn Llanrwst - 4 milltir o Fetws-y-Coed. Manylion cyswllt:

- **Deintyddfa Llanrwst,** 24a Watling Street, Llanrwst, Conwy, LL26 0LS Ffôn: 01492 641000

**Fferyllfa**
Mae rhai meddyginiaethau sylfaenol ar gael dros y cownter yn siop Spar ym Metws-y-Coed. Fodd bynnag, mae'r fferyllfa agosaf yn Llanrwst, 4 milltir i'r gogledd o Fetws-y-Coed.

- **Fferyllfa Boots**, Heol Ddinbych, Llanrwst. Ffôn: 01492 640620

**Banciau / Peiriannau Arian Parod**
Does dim cangen banc y n lleol. Mae canghennau agosaf y prif fanciau ym Mae Colwyn a Llandudno. Fodd bynnag, mae peiriannau arian parod ym Metws-y-Coed a Llanrwst ac mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd post lleol yn cynnig cyfleusterau bancio sylfaenol sy'n cynnwys codi arian o gyfrifon banc yn y DU. Edrychwch ar fap y pentref i weld lle maen nhw.

**Swyddfeydd Post**
Mae swyddfa bost Betws-y-Coed y tu mewn i siop Londis yng nghanol y pentref. Mae swyddfa bost hefyd yn y siop Londis yn Llanrwst.

**Eglwysi**
Mae Eglwys y Santes Fair yng nghanol Betws-y-Coed ar hyd yr A5 (edrychwch ar fap y pentref). Gallwch weld faint o'r gloch mae'r gwasanaethau ar www.brogwydyr.cymru. Mae Eglwys Sant Mihangel ar Hen Ffordd yr Eglwys, y tu ôl i'r orsaf reilffordd. Does dim gwasanaethau yn yr eglwys fach, hynafol hon ond mae ar agor i ymwelwyr.

**Yr Heddlu**
Mae'r orsaf heddlu agosaf yn Llanrwst, 4 milltir i'r gogledd o Fetws-y-Coed.

- **Heddlu Gogledd Cymru** Glasdir, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst, Llanrwst, LL26 0DF

**Gorsafoedd Petrol**
Mae gorsafoedd petrol ar yr A5 ar ben deheuol Betws-y-Coed yn ogystal ag ar yr A470 rhwng Betws a Llanrwst



# Beicio ym Metws-y-Coed a'r ardal gyfagos

Mae'r ardal o gwmpas Betws-y-Coed yn lle gwych i'w archwilio ar eich beic, boed yn chwilio am reidiau heriol, hir ar y ffordd neu anturiaethau oddi ar y ffordd.

Daeth beicio mynydd ar drac sengl yn y DU yn wreiddiol o ogledd Cymru. Roedd dau o'r llwybrau beicio mynydd cyntaf yn y DU yng Nghoedwig Gwydyr (Llwybr y Marin) a Choed y Brenin (Llwybr Red Bull). Bellach mae Llwybr y Marin, sy'n radd lliw coch, ynghyd â llwybrau Penmachno yn denu beicwyr beicio mynydd o dros y byd i gyd! Mae'r ardal hefyd yn ganolbwynt da i feicio lawr llwybrau lawr allt Antur Stiniog yn nhref gyfagos Blaenau Ffestiniog. Ychydig ymhellach mae llwybrau beicio Lôn Las Ogwen a Lôn Eifion yn rhoi cyfle i'r teulu cyfan feicio ar ffyrdd tawel a llinellau rheilffordd segur tra bod Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yn dilyn arfordir gogledd Cymru gyda golygfeydd arbennig o'r môr.



Mae ein hardal yn lle gwych i fynd ar eich beic! Mae'r llwybrau drwy Goedwig Gwydyr yn eich galluogi i archwilio Llyn Elsi, Llyn Geirionydd, Llyn Crafnant, Sarn Helen, Dyffryn Lledr a Phenmachno. Bydd pob un yn herio eich sgiliau chwilio'r ffordd a chyhyrau'r coesau ond yn eich gwobrwyo gyda thirweddau gogoneddus a golygfeydd hyfryd. Gallwch logi e-feic yn lleol i wneud eich teithiau beicio yn fwy hwyl fyth, yn ogystal â defnyddio gwasanaeth trên Dyffryn Conwy am ran o'ch taith i roi hoe fach i'ch coesau!

Os ydy beicio ffordd yn mynd â'ch bryd, mae yna lwybrau gwerth chweil y gallwch chi eu mwynhau ledled Eryri. Mae Llwybr Brailsford, a grëwyd i gydnabod cyfraniad Syr David Brailsford at Feicio ym Mhrydain, yn cynnig dau lwybr pellter hir drwy'r parc cenedlaethol gan gynnwys Betws-y-Coed.

Gallwch hefyd benderfynu ar eich taith gylchol eich hun, gan ganolbwyntio ar lwybrau tawelach, neu roi cynnig ar lwybr beicio hir, oddi ar y ffordd, Traws Eryri sy'n cysylltu Conwy gyda Machynlleth ac yn mynd drwy Benmachno, Betws-y-Coed a Chapel Curig.

Mae gan Fetws-y-Coed a'r ardal gyfagos gaffis gwych a chyfleusterau llogi a thrwsio beiciau (**bikewales.co.uk**). Bydd sawl llety yn darparu cyfleusterau storio a gwefru beiciau. Felly, gadewch eich car gartref a mwynhewch archwilio'r ardal ar ddwy olwyn! Bydd croeso cynnes iawn yn eich aros!



**Dolenni Gwefannau Defnyddiol:**

www.mbwales.com/listings/gwydirmawrandbach

www.mbwales.com/listings/black-powder

www.hiraethog.org.uk/things-to-do/her-hiraethog-p319351

www.sustrans.org.uk/find-other-routes/?location=North+West+Wales&routetype=null&distance=null&p=1

www.cyclinguk.org/traws-eryri

13




# Gwydyr Mawr/Bach (Llwybr y Marin)

## Un o'r llwybrau Beicio Mynydd pwrpasol cyntaf yn y wlad, sy'n glasur o lwybr.

Mae'n hawdd ei gyrraedd o sawl man yn agos i Fetws-y-Coed, mae ei ddringfeydd mawr, disgynfeydd mawr, trac sengl gwych a golygfa arbennig yn gwneud y llwybr hwn yn un i'w archwilio a'i fwynhau.

Mae'r daith gylchol lawn yn 25km o hyd ac yn gofyn am lefel stamina ac arbenigedd eithaf uchel, ac mae modd ei chwblhau gan amlaf mewn 2-4 awr. Gyda gradd lliw Coch/ Anodd, mae felly yn fwyaf addas ar gyfer beicwyr medrus gyda sgiliau da oddi ar y ffordd. Gallwch ddisgwyl llawer iawn o wahanol ddringfeydd a disgynfeydd heriol gyda llwybrau estyllod, troedffyrdd, cerrig mawrion, camau canolig, disgyniadau, cambrau a'r angen i groesi dŵr.

Dros yr holl lwybr mae 450m o ddringfa.

*i*

**Tymor:** Trwy'r flwyddyn

**Oriau agor:** 24 awr

**Amser beicio (oriau):** 2-4 awr

**Pellter:** 20-30km

**Uchder i'w ddringo (metrau):** 800

**Gradd:** Coch / Anodd

**Yn addas ar gyfer:** Beicwyr mynydd medrus gyda sgiliau beicio da oddi ar y ffordd. Yn addas ar gyfer beiciau mynydd oddi ar y ffordd o safon orau.

**Lledred:** 53.131506
**Hydred:** -3.8084898



14



# Llwybr Penmachno

## Llwybr Penmachno ydy trysor cudd beicio mynydd gogledd Cymru.

Mae'n cynnwys 30km o lwybrau a thraciau coedwig gyda golygfeydd godidog ac ymdeimlad o wir antur beicio mynydd.

Mae llwybr Dolen Machno yn dechrau o Benmachno. Tydy llwybr Dolen Eryri bellach ddim yn cael ei defnyddio ond mae dal modd archwilio'r ardal ar ffyrdd tân y goedwig.

Gyda gradd lliw Coch / Anodd tydy'r llwybr hwn ddim i ddechreuwyr! Mae angen lefel uchel o ffitrwydd ac arbenigedd. Gall y llwybr fod yn serth ac yn anodd, yn drac sengl gan amlaf gyda rhannau technegol drwy gydol. Mae'n cynnwys amrediad eang o ddringfeydd a disgynfeydd heriol yn ogystal â llwybrau estyllod, troedffyrdd, cerrig mawrion, camau canolig, disgyniadau, cambrau a'r angen i groesi dŵr. Gyda'i gilydd mae dros 506 metr o ddringfa.

*i*

**Tymor:** Trwy'r flwyddyn

**Oriau agor:** 24 awr

**Amser beicio (oriau):** 4

**Pellter:** 20-30km

**Uchder i'w ddringo (metrau):** 760

**Gradd:** Coch / Anodd

**Yn addas ar gyfer:** Beicwyr mynydd medrus gyda sgiliau beicio da oddi ar y ffordd. Yn addas ar gyfer beiciau mynydd oddi ar y ffordd o safon orau.

**Lledred:** 53.030766
**Hydred:** -3.8117273

# Gwnewch eich ymweliad yn un i'w gofio gyda mwy o bethau diddorol i'w gwneud a'u gweld…

## Anturiaethau Adrenalin
Mae gan yr ardal sawl atyniad a gweithgareddau ar gael gyda gwifrau gwib, cyrsiau rhaffau uchel, ffigar-êt y goedwig, trampolinio tanddaearol, cerdded ceunentydd, neidio mewn i geunentydd, dringo ac archwilio mwyngloddiau.

## Go Below
Cyfle i archwilio mwyngloddiau a cheudyllau tanddaearol trwy ganol mynydd trwy gyfres o heriau tanddaearol cyffrous. Bellach yn cynnwys Cysgu'n Ddwfn lle gallwch dreulio'r noson yn nyfnder tanddaearol ogof.

## Eglwys y Santes Fair
Mewn pentref bach mae'n anghyffredin gweld eglwys Neo-gothig mor fawr sy'n debyg i gadeirlan. Wedi'i adeiladu yn 1873 mae'n adeilad diddorol iawn a'r tu mewn yn hyfryd. Bob dydd Sul yn ystod misoedd yr haf mae cyngerdd côr meibion yno.

## Eglwys Sant Mihangel
Yr adeilad hynaf ym Metws-y-Coed sy'n sefyll gerllaw afon Conwy. Mae eglwys Sant Mihangel yn dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif ac wedi'i chadw'n hyfryd gyda'r tu mewn yn hyfryd o wladaidd.

## Castell Gwydyr
Caiff ei ystyried yn un o'r plastai harddaf o oes y Tuduriaid yng Nghymru, roedd y castell yn arfer bod yn gartref teuluol i deulu pwerus y Wyniaid. Mae'r tu mewn traddodiadol yn adlewyrchu'n ffyddlon y bensaernïaeth o oes y Tuduriaid a'r gerddi yn hyfryd.

## Llyn Crafnant
Mae'r llyn hyfryd hwn yn fan prydferth enwog, yn hawdd i'w gyrraedd mewn car neu ar feic a'r ffordd orau o'i fwynhau ydi drwy ddilyn y daith gylchol ar lan y llyn ar droed neu ar feic.

## Llyn Geirionydd
Llyn hyfryd arall y mae modd ei gyrraedd mewn car neu ar feic. Yn agos at Lyn Crafnant, mae modd mwynhau'r ddau fesul un neu gyda'i gilydd ar yr un daith gerdded.

## Amgueddfa Rheilffordd Conwy a'r Rheilffordd Fach
Wrth ymyl gorsaf reilffordd Betws-y-Coed mae Amgueddfa Rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhywle yn sicr y dylai pawb sy'n mwynhau rheilffyrdd ymweld ag o. Mae'r rheilffordd fach yn eich tywys ar daith 8 munud o amgylch y dirwedd hyfryd.

## Siambr Gladdu Capel Garmon
Mae darganfod y siambr Neolithig (Oes Newydd y Cerrig) hon sydd wedi'i chadw'n dda iawn mor uchel i fyny yn y gogledd yn dipyn o ddirgelwch gan fod beddrodau o'r math hwn yn perthyn i grŵp archeolegol o'r enw Hafren-Cotswold ar ôl yr ardal lle mae modd eu darganfod gan amlaf.

## Gerddi Bodnant
Diwrnod allan hynod arbennig i godi calon unrhyw un yn un o barciau gerddi gwledig enwocaf, prydferthaf a mwyaf heddychlon Prydain. Mae nentydd a llwybrau yn croesi ei 80 erw ynghyd â llennyrch llawn llwyni, dolydd coetir, llyn a'r gerddi pant a dŵr hudolus.

## Capel Gwydyr Uchaf
Capel syml wedi'i adeiladu o garreg yn 1673 yn adnabyddus am ei do sydd wedi'i beintio'n gywrain.

## Tu Hwnt i'r Bont
Mae Tu Hwnt i'r Bont yn ystafell de a bwyty hanesyddol ac unigryw sydd wedi ennill gwobrau ac yn dyddio'n ôl o'r 15fed ganrif. Mae ar lan gorllewinol afon Conwy gerllaw pont enwog Inigo Jones yn y dref farchnad gyfagos, Llanrwst. Mae'n enwog iawn mewn lluniau oherwydd ei orchudd eiddew lliwgar.

# Bwyd a Diod

Mae Betws-y-Coed a'i drefi a phentrefi cyfagos yn llawn llefydd gwych i fwyta ac yfed. Mae rhywbeth yma at ddant pawb.





Brecwast, brecinio, cinio hir, te prynhawn neu swper, mae rhywbeth yma i bawb ym Metws-y-Coed a'r ardal.

Gallwch fwynhau brecwast llawn Cymreig yn y caffis annibynnol hyfryd yn yr ardal sy'n cynnig rhywbeth at bob anghenion dietegol.

Cewch fwynhau arbenigeddau Cymreig fel cacennau cri, bara brith neu gaws pob. Gallwch hefyd fwynhau te prynhawn wrth yr afon a mwynhau golygfeydd arbennig a chynnyrch lleol gwych.

Mae digon o ddewis yn y pentref ichi gael picnic. Ewch i nôl cynhyrchion wedi'u pobi'n ffres o'n siopau bara a bwydydd lleol a mynd â nhw gyda chi ar eich antur neu beth am fwynhau cinio mwy hamddenol ar lan yr afon neu ar un o'r sawl dro hyfryd sydd ar gael.


Mae bwytai'r pentref yn cynnig pob math o wahanol fwydydd. Boed yn chwilio am damaid sydyn i gadw'ch egni ar ôl diwrnod hir yn y mynyddoedd, dathlu achlysur arbennig neu fwynhau tamaid bach arbennig mae rhywbeth yma i bawb! O bysgod a sglodion wedi'u paratoi'n ffres a bwyd cartref mewn tafarndai clyd, i bitsas arbennig, cyrri go iawn, tapas Cymreig a bwytai Cymreig hyfryd – mae yma bopeth ym Metws-y-Coed a'r ardal!

Bydd croeso cynnes yn eich aros yng nghaffis, tafarndai a bwytai Dyffryn Conwy, gan roi cyfle ichi fwynhau'r cynnyrch arbennig sydd gan ein hardal i'w gynnig!



# Siopa

Betws-y-Coed ydy'r lle perffaith i fwynhau amrywiaeth ardderchog o siopau annibynnol a siopau awyr agored mawr!





Mae amrywiaeth wych o siopau sy'n gwerthu popeth y gallwch chi fod ei angen i fwynhau'r awyr agored.

Oes un darn hanfodol o offer ar goll gennych ar gyfer eich antur? Peidiwch â phoeni, gallwch ddod o hyd iddo ym Metws-y-Coed. O fesur am esgidiau cerdded arbenigol i offer beicio, offer dringo a dillad aml-dywydd, fe allwn ni eich arfogi ar gyfer beth bynnag ddaw yn Eryri!

Os ydych chi'n chwilio am nwyddau arbennig i'ch atgoffa o'ch gwyliau, rydych chi yn y lle cywir! Mae gennym ni doreth o grefftwyr a chynhyrchwyr lleol arbennig ac amrediad eang o siopau unigryw ac orielau i'ch denu! Boed yn gwneud eich siopau Nadolig, neu yn chwilio am yr anrheg pen-blwydd perffaith, neu eisiau prynu rhywbeth bach arbennig i'ch atgoffa o Eryri, fe ddewch chi o hyd iddo yma ym Metws-y-Coed!

Roedd Betws-y-Coed yn drefedigaeth arlunwyr yn flaenorol ac felly, yn draddodiadol, mae'n gwneud synnwyr bod sawl oriel yma yn lleol sy'n arddangos celf o Gymru mewn amryw o gyfryngau, o waith cerflunio a gwydr i baentiadau a gemwaith.

Boed yn edrychwr ffenestri siopau neu yn chwilio am rywbeth penodol, mae Betws-y-Coed yn lle gwych i chwilio am yr anrheg berffaith yna.

Ychydig ymhellach, mae gan siop Trefriw Woollen Mill nwyddau a dillad gwëedig traddodiadol ac mae marchnadoedd, siop gig, fferyllfa a siop fara yn Llanrwst.

# Parc Cenedlaethol Eryri

O gopaon mynyddoedd mawreddog i'w ddiwylliant ac iaith, mae gan Barc Cenedlaethol Eryri sawl nodwedd arbennig gan gynnwys:

- Mae tirwedd Eryri yn unigryw. Mae ei **9 cadwyn o fynyddoedd** yn cyfrif tua 52 y cant o'r parc ac yn cynnwys sawl copa sy'n uwch na 3,000 troedfedd (915m).
- **Mae Eryri yn dirwedd hyfryd o amrywiol** o geunentydd dwfn, rhaeadrau a dyffrynnoedd gwyrdd. Mae coetir derw, ynn, criafol a chyll i'w cael ar draws yr holl barc - ac aberoedd hyfryd Dyfi, Mawddach a Dwyryd yn ogystal â 23 milltir o amlinell y glannau a thraethau tywod yn cyfrannu at amrywiaeth y dirwedd.
- Caiff yr **amrediad o gynefinoedd** yn y parc ei gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol - o Ardaloedd Cadwraeth Lleol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Aber Dyfi sy'n Safle Biosffer y Byd arfaethedig.
- Mae Eryri yn yr **hen deyrnas Gwynedd** ac yn gadarnle i'r iaith Gymraeg.
- Mae **dros 100 o lynnoedd sy'n fwy nac erw mewn maint** yn Eryri, o Lyn Ogwen yn y gogledd i Dal y Llyn yn y de.
- Mae tua 20 y cant o Barc Cenedlaethol Eryri wedi'i ddynodi'n arbennig gan gyfraith y DU ac Ewrop i warchod ei fywyd gwyllt arbennig. Ymysg y planhigion Arctig-Alpaidd sydd i'w cael ar y copaon uchel **mae lili'r Wyddfa yn unigryw i'r Wyddfa**. Mae Chwilen yr Wyddfa neu Chwilen yr Enfys hefyd yn unigryw i'r Wyddfa.
- Mae **17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Eryri**, mwy nac mewn unrhyw barc cenedlaethol arall yng Nghymru; ynghyd â 56 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Yn Llyn Tegid, llyn naturiol mwyaf y parc, mae peth prin arall yn Eryri yn byw sef **y Gwyniad**, isrywogaeth unigryw o bysgod gwyn Ewropeaidd, wedi'u dal yn y llyn ar ddiwedd yr Oes Iâ diwethaf, 10,000 o flynyddoedd yn ôl.
- Mae hanes a diwydiant ym mhobman yn Eryri a'r iaith Gymraeg yn famiaith i 65 y cant o'r boblogaeth. Rydych chi'n sicr o weld a chlywed yr iaith pan fyddwch chi'n ymweld ag Eryri.
- Mae tirwedd Eryri yn esbonio hanes yr ardal drwy siamberi claddu o Oes y Cerrig, caerau Rhufeinig, eglwysi, cestyll, chwareli llechi a gwaith diwydiannol eraill.
- Mae gweithgarwch o Oes yr Iâ wedi gwneud llawer i siapio'r dirwedd yn Eryri. Bu i'r rhewlifau oedd ar eu hanterth 18,000 o flynyddoedd yn ôl yn Eryri erydu dyffrynnoedd mawrion siâp U gan gynnwys Llanberis a Nant Gwynant yn y gogledd a Thal-y-Llyn yn y de.

## Parhad o Barc Cenedlaethol Eryri...


Fel porth swyddogol Eryri, mae Betws-y-Coed mewn lleoliad unigryw yn y Parc Cenedlaethol gyda'i fynediad hawdd at Yr Wyddfa, mynydd uchaf Cymru sy'n 3,560 troedfedd o uchder. Hefyd yn agos at Fetws-y-Coed mae Tryfan a 15 copa arall, rhai gyda'u llwybrau eu hunain at y copa.

Dim ond 6 milltir i ffwrdd mae Pen-y-Pas sef y prif lwybr cerdded i fyny'r Wyddfa ar hyd llwybrau Pyg a'r Mwynwyr. Mae'n rhaid archebu lle parcio o flaen llaw neu fe allwch ddal Bws Sherpa yn uniongyrchol o'r pentref.

Ymhellach ymlaen o Gapel Curig ar yr A5 ac yn Nyffryn Ogwen mae Tryfan gaiff ei adnabod fel y mynydd 'ymarferol' gyda'r cerrig mawrion enwog, Adda ac Efa, ar y copa. Mae'n ddringfa boblogaidd iawn ac yn rhoi profiad llawer mwy anturus.

Gerllaw Tryfan mae Cwm Idwal, crognant drawiadol a safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae'r mynyddoedd fel amffitheatr o gwmpas y llyn ac yn boblogaidd ymysg dringwyr yn arbennig yn y gaeaf. Mae maes parcio a thoiledau i ymwelwyr yng Nghwm Idwal. Mae diogelwch yn y mynyddoedd yn hollbwysig gan fod y tywydd yn amrywio yn aml ac felly cewch eich cynghori i edrych ar ragolygon y tywydd cyn mentro allan a rhoi gwybod i rywun arall am ba lwybr byddwch chi'n ei ddilyn. Mae offer mynydda priodol yn angenrheidiol er mwyn dringo unrhyw lwybr yn Eryri. Gan fod y tywydd yn gallu newid yn sydyn a'r tymheredd ar y copa yn gallu bod cymaint â 10° yn is na'r tymheredd yn y dyffryn. Hefyd, dylech fod yn ymwybodol ei bod yn anodd cael signal ffôn mewn rhai ardaloedd. Yn olaf, peidiwch byth mentro i'r mynyddoedd heb fap.











# Digwyddiadau Lleol

**Ionawr**

- **Ras Fynyddig y Gaeaf Buff**
  Hanner marathon mynyddig trwy lwybrau coedwig hyfryd Coed y Brenin. **runcyb.com/winter-trail-wales**

**Chwefror**

- **Rali'r Ddraig**
  Antur beicio o gwmpas pentref Betws-y-Coed a'r ardal gyfagos **conwymotorcycleclub.org.uk/Dragon-Rally**

- **Let's Run Rhyl**
  Rasys rhedeg 5 milltir, 10 milltir a 20 milltir yn nhref glan môr Y Rhyl. Cwrs gwastad a chyflym i'r rheiny sy'n awyddus i guro eu record bersonol. **runwales.com/e/lets-run-rhyl-5-mile-10-mile-and-half-marathon-8640**

**Mawrth**

- **Hanner Marathon Môn**
  Hanner marathon yn dechrau ar Bont Menai gan redeg allan at dref hyfryd Biwmares ac yn ôl. **alwaysaimhighevents.com/events/anglesey-half-marathon-and-10k-2024**

- **Ffair Hadau Conwy**
  Ffair Siarter Frenhinol 700 mlwydd oed gyda stondinau hadau a phlanhigion, mêl a marchnad ffermwyr **visitconwy.org.uk/whats-on/conwy-seed-fair-2024-p465301**

**Ebrill**

- **Triathlon Harlech**
  Yn Harlech, dyma'r cyntaf yng nghyfres triathlonau Always Aim High sy'n gwneud y mwyaf o'r dref arfordirol hyfryd hon. **alwaysaimhighevents.com/events/harlech-triathlon-2024**

- **Hanner Marathon o Bier i Bier**
  O Fae Colwyn i Landudno ac yn ôl. **runwales.com/e/pier2pier-half-marathon-9601**

- **Helfa'r Pasg**
  Helfa llawn hwyl am blaciau lliwgar y Pasg drwy Fetws-y-Coed. **visitbetwsycoed.co.uk**

**Mai**

- **Gŵyl Gerdded Trefriw**
  Gŵyl gerdded wedi'i threfnu gan gymuned Trefriw gan gerdded heibio'r goreuon sydd gan Eryri i'w chynnig. **trefriwwalkingfestival.co.uk**

- **Hanner Marathon Eryri**
  Hanner marathon anodd ond hyfryd sy'n mynd heibio Llyn Crafnant a Llyn Geirionydd. Gan ddechrau yn Llanrwst, nid yw'n addas i'r gwangalon ond yn addas i rai sy'n chwilio am her. **runwales.com/e/snowdonia-half-marathon-8642**

- **Ras Fynyddig Eithafol Eryri (UTS)** Gwledd o lwybrau technegol drwy dirweddau mytholegol, UTS ydy unig ddigwyddiad yng Nghyfres y Byd UTMB® - 'Yn anhygoel o hyfryd, yn afresymol o filain' **snowdonia.utmb.world**

**Mehefin**

- **Triathlon y Dyn Llechi**
  Rhan gyntaf o'r Bencampwriaeth Antur, Triathlon y Dyn Llechi ydy Triathlon Antur mwyaf eiconig Cymru. Gan ddechrau yn Llanberis; canolbwynt treftadaeth ddiwydiannol Eryri, mae hon yn ras heb ei hail sy'n cyfuno golygfeydd anhygoel gyda heriau epig. **alwaysaimhighevents.com/events/slateman-triathlon-2024**

- **Ras Eithafol Cymru (Ultra)**
  Y 5ed ras, 2024! Rhowch gynnig ar y ras fynyddig hyfryd hon gyda 2898m o esgyniad sy'n cynnwys Penygader arbennig Cadair Idris (893m), 'Brenhines y Rhinogydd' Rhinog Fach (712m), Dolgellau, aber byd-enwog Abermaw ac un o goedwigoedd mawreddog Cymru, Coed-y-Brenin. **gbultras.com/ultra-wales**

- **Marathon Mynyddig Cymru**
  Gyda dewis o hanner marathon neu farathon llawn, mae'r ras hon yn dilyn llwybrau hyfryd ond heriol Coed-y-Brenin. **runcyb.com/trail-marathon-wales**

**Gorffennaf**

- **Marathon Mynyddig yr Wyddfa: Llanberis**
  Marathon mynyddig i fyny'r Wyddfa ei hun. **alwaysaimhighevents.com/events/snowdonia-trail-marathon-2024/snowdonia-trail-ultra-marathon-2024**

- **Ras Yr Wyddfa**
  Ras eiconig o lannau Llyn Padarn i'r copa ac yn ôl. Ddim yn addas i'r gwangalon. **snowdonrace.co.uk**

**Awst**

- **Tour de Môn: Ynys Môn**
  Ras feicio o gwmpas ynys hardd Sir Fôn. **alwaysaimhighevents.com/events/tour-de-mon-2024**

- **Triathlon y Dyn Eira: Capel Curig**
  Yn mynd heibio Moel Siabod a rhai o'r golygfeydd gorau o'r Wyddfa sydd gan yr ardal i'w cynnig. **alwaysaimhighevents.com/events/snowman-triathlon-2024**

**Medi**

- **Ras Eithafol Prydain Fawr: digwyddiadau 50 a 100 milltir Eithafol Yr Wyddfa**
  Gyda rhwng 3251m a 5729m o esgyniad, mae llwybrau mynydd yn arwain at Lwybr Gwregys i fyny Tryfan, copa'r Wyddfa, Glyder Fach a Glyder Fawr, Twll Du a Llyn Idwal cyn dilyn llwybrau anhygoel Llyn Crafnant a Llyn Geirionydd! **gbultras.com/snowdon-ultra-50/ gbultras.com/snowdon-ultra-100/**

- **Hanner marathon Caernarfon**
  Yn newydd ers 2020, yn gyflym a gwastad gyda chyfle da i guro record bersonol a mwynhau golygfeydd hardd. **runwales.com/e/caernarfon-half-marathon-8668**

- **Ffair Fêl Conwy**
  Ffair hynafol lle mae cynhyrchwyr mêl lleol yn gwerthu eu mêl ar strydoedd Conwy **conwybeekeepers.org.uk**

**Hydref**

- **Marathon Eryri**
  Ras eiconig yn mynd o gwmpas yr Wyddfa ei hun. Heb os un o'r marathonau anoddaf ond mwyaf prydferth yn y DU ac efallai hyd yn oed y byd. **marathoneryri.com**

- **Rali Cambrian**
  Rhan o gyfres Pencampwriaeth Rali Prydain yng nghoedwigoedd Cymru gan gynnwys Coedwig Gwydyr. **cambrianrally.co.uk**

**Tachwedd**

- **Ras Fynyddig Betws-y-Coed**
  Rasys rhedeg 5k, 10k, hanner marathon a rhedeg gyda chŵn o Fetws-y-Coed i fyny at lyn hyfryd Llyn Elsi. **muckybootsevents.com/trail-betws**

- **Hanner Marathon Conwy**
  Hanner marathon yn dechrau wrth gastell enwog Conwy a'r marina gan fynd heibio'r Gogarth. **runwales.com/e/conwy-half-marathon-8639**

**Rhagfyr**

- **Betws-y-Coed**
  Trwy gydol mis Rhagfyr bydd Betws-y-Coed yn cynnal nifer o ddigwyddiadau a dathliadau Nadoligaidd yn cynnwys ffeiriau Nadolig, arddangosfeydd disglair, helfa'r Adfent, gorymdaith lanterni, sesiynau gwneud torchau a siopa gyda'r hwyr.

  Caiff pantomeim Betws-y-Coed, sioe llawn hwyl i'r teulu cyfan, hefyd ei chynnal.

# Cymuned Ddi-blastig

## Mae Betws-y-Coed, Trefriw, Capel Curig, Dolwyddelan, Capel Garmon, Llanrwst, Penmachno a Phentrefoelas yn rhan o gymuned ddi-blastig Betws-y-Coed a'r ardal.

Mae cymuned ddi-blastig yn grŵp o bobl sy'n dod ynghyd i fynd i'r afael â phlastig untro osgoadwy fel poteli, cwpanau a chaeadau, cyllyll a ffyrc tafladwy yn ogystal â phecynnau bwyd, pecynnau prydau parod plastig, trowyr, balwnau, bagiau bychain sawsiau, plastigion yr ystafell ymolchi neu fagiau plastig. Nid cael gwared ar holl blastig o'n bywyd ydy'r nod ond yn hytrach lleihau faint rydym ni'n dibynnu ar blastig tafladwy a newid y system sy'n ei gynhyrchu.

Dilynwch:
**@plasticfreebetwsanddistrict**




Llun drwy garedigrwydd SNPA

betws-y-coed
...and surrounding towns & villages

visitbetwsycoed.co.uk